Cyngor Tref Pwllheli

COFNODION IS BWYLLGOR CYLLID A GYNHALIWYD AM 6.30y.h. NOS IAU 23 TACHWEDD YN SIAMBR Y CYNGOR STRYD PENLAN PWLLHELI

COPI DRAFFT.

Cof;-1911/17 Presennol.

Y Maer, Cyng. Henry Williams
Dirprwy Faer, Cyng. Eric Wyn Roberts
Cyng. Alan Williams, M Sol Owen,Elfed Gruffydd, Parch Ioan Gruffydd.

Cof;- 2011/17 Ymddiheuriadau.

Yr oedd amryw o ymddiheuriadau

Cof;- 2111/17 Trafod Cyllideb 2018/19 ac argymell presept am 2018/19

Bu trafodaeth frwd ar y gyllideb ar gyfer 2018/19, Aed trwyddi yn fanwl iawn a death yr Is Bwyllgor I'r penderfyniad o argymell codi'r presept I £73,000 sef codiad o £1,000 ar presept 2017/18

Cof;- 2211/17 Adolygiad ar waith Cynghorau Bro a Thref.

Adroddodd y Clerc fod pedwar cwestiwn mae angen ymateb iddynt a'i fod yn bwriadu mynychu cyfarfod wedi ei drefnu gan Un Llais Cymru yng Nghaernarfon ar y 28 Tachwedd i gael arweiniad pellach ar y mater.

Rhoddodd yr is bwyllgor yr hawl i'r Clerc gyflwyno adroddiad a rei rhan yn dilyn y cyfarfod gydag Un Llais Cymru.

Cof;- 2311/17 Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr

Mae'r Panel yn bwriadu gwneud y penderfyniad canlynol o'r 1 Ebrill 2018 sef, Bydd yn rhaid i Gynghorau Tref a Chymuned dalu £150 y flwyddyn i bob un o'u haelodau am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul a.y.b.
Os na fydd Aelod am gymryd y taliad yma bydd rhaid ysgrifennu'n swyddogol i Glerc y Cyngor yn ei hysbysu o hyn..
Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu ag Un Llais Cymru i gael arweiniad pellach ar y mater.
Tynnodd sylw'r pwyllgor os bydd y Panel yn gweithredu'r cymal yma bydd gwaith ychwanegol sylweddol ar ysgwyddau Clercod, ac ni ellir gweld unrhyw reswm tros hyn ac y byddai yn well gadael y cymal yma fel ac y mae." Sef fod ganddynt yr awdurdod i wneud taliad i'r Aelodau" pe b ai cais amdano gan unigolyn yn cael ei wenud
Penderfynwyd anfon at y panel i dynnu ei sylw i hyn..

Cyngor Tref Pwllheli

Cof;- 2411/17 Penodi Archwiliwr Mewnol ar lyfrau Ariannol y Cyngor am 2017/18.

Mae'r Archwilydd arferol Mr John Roberts bellach wedi ymddeol ac mae swyddog o adran Archwilio Cyngor Gwynedd wedi datgan diddordeb mewn gwneud y gwaith,
Felly gall y Cyngor ei phenodi hi neu ofyn i gyfrifydd yn y Dref ymgymryd ar gwaith.

Daeth Aelodau'r pwyllgor i'r penderfyniad o ofyn i archwilydd o Gyngor Gwynedd ymgymryd â'r gwaith

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15.y.h.